SL(5)491 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffïoedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) ac yn diwygio'n sylweddol Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru).

Maent yn gweithredu ac yn gorfodi Rheoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion ("Rheoliad yr UE").

Mae gweithredu a gorfodi darpariaethau eraill Rheoliad yr UE sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid yn destun Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cynnal archwiliadau o reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â Rheoliad yr UE. Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer cymorth a chydweithrediad o dan Deitl IV o Reoliad yr UE ac adennill treuliau Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer gorfodi a chosbau. Mae Rhan 5 yn ymdrin â diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i gymhwyso Rheoliad yr UE. Mae Rhan 6 yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â ffioedd iechyd planhigion o ganlyniad i gymhwyso Rheoliad yr UE a Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd saith pwynt technegol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

1. Mae Rheoliad 29(a) yn hepgor Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 Mae Rheoliad 29(b) yn hepgor rheoliadau 3(7)(i) (gweler pwynt adrodd 5) 3 (20) a (22). Mae Rheoliad 2(1) yn cyflwyno'r diwygiadau i Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 ac mae Rheoliad 3(20) yn cyflwyno'r diwygiadau i Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Nid yw'n glir pam y cafodd y darpariaethau hyn eu dileu.

Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

2. Mae rheoliad 12(1)(g) yn ymwneud â'r camau y gall swyddog gorfodi eu cymryd os oes ganddo reswm i gredu bod gan berson ddata a allai fod yn berthnasol i dorri'r Rheoliadau neu Reoliadau Rheolaethau

Swyddogol yr UE. Mae'n caniatáu i swyddog gorfodi *"ymafael mewn unrhyw offer cyfrifiadurol a'i gadw at ddiben copïo'r data neu, os nad yw wedi bod yn bosibl cynnal arolygiad digonol yn y fangre, at ddiben **ei arolygu ymhellach**"*. Nid yw'n glir beth yw ystyr hyn.

3. Mae Rheoliad 23(33)(b) ac (c) yn ychwanegu cofnodion yn Atodlen 1 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â Rheoliad (EU) 2016/1012. Ymddengys bod y cofnod hwn yn bodoli eisoes, ar ôl cael ei ychwanegu gan reoliad 9(3) o Reoliadau Safonau Sootechnegol (Cymru) 2018.

4. Mae rheoliad 23(34)(f) yn diwygio paragraff 9(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Mae'n ymddangos bod 'of' ar goll a ddylai ymddangos ar ddiwedd y testun i'w fewnosod. Dylai ddarllen "the import of certain birds and quarantine conditions for the purposes **of**".

5. Mae Rheoliad 29(b) yn dileu rheoliad 3(7)(i) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 Nid yw rheoliad 3(7)(i) yn bodoli, rydym yn rhagdybio y dylai rheoliad 29(b) gyfeirio at reoliad 3(7)(c)(i).

Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg.

6. Yn rheoliad 13(5)(b), "y bodlonir neu ragor o'r amodau ym mharagraff (6)" dylai ddarllen "y bodlonir un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (6)".

7. Yn rheoliad 23(10), mae'r fersiwn Saesneg o reoliad newydd 11(2)(a) yn nodi y caiff yr awdurdod perthnasol gyflwyno hysbysiad sy'n "specifying the breach" o'r gofynion. Mae'r fersiwn Gymraeg yn nodi y gall yr awdurdod perthnasol gyflwyno hysbysiad "sydd yn…pennu'r modd y torrwyd y gofynion". Drwy gyfeirio at y ffordd y mae'r gofyniad yn cael ei dorri, mae'n ymddangos bod y fersiwn Gymraeg yn fwy penodol na'r fersiwn Saesneg.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt rhinweddau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

8. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Ffioedd Iechyd Planhigion sy'n daladwy i Weinidogion Cymru.

Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

9. Nodwn y torri'r rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn **llythyr** dyddiedig 22 Ionawr 2020 at y Llywydd.

Mae'r llythyr yn nodi "*bu oedi gyda drafftio'r Offeryn Statudol oherwydd bod rhannau pwysig ohono yn dibynnu ar statws y Deyrnas Unedig, o ran a oedd yn Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar y dyddiad y byddai Rheoliad y Cyngor yn dod i rym (14 Rhagfyr 2019). Ni chafwyd unrhyw sicrwydd ynghylch hyn gan Lywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd tan yn agos iawn at 31 Hydref. Hefyd, mae Rheoliad y Cyngor yn gymhleth iawn ac mae 28 o atodiadau o ddeddfwriaeth drydyddol sy'n pennu agweddau manwl pwysig ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill. Cafodd y gwaith o ddrafftio Rheoliad Gweinidogion Cymru ei gwblhau cyn gynted â phosib, a'r eitem olaf o ddeddfwriaeth drydyddol a wnaethpwyd o dan Reoliad y Cyngor wedi'i gwblhau ar 12 Rhagfyr 2019.*"

Rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ei bod *"yn hanfodol bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, gan roi opsiynau gorfodi ychwanegol i gyrff gorfodi a sicrhau bod Cymru yn gyson â gweddill y DU, gan bod Gweinyddiaethau eraill y DU eisoes wedi cyflwyno eu deddfwriaeth gorfodi cyfatebol".*

Nodwn fod y rheoliadau cyfatebol a wnaed gan Senedd y DU a Senedd yr Alban wedi dod i rym ar 14 Rhagfyr 2019 (dyddiad dod i rym Rheoliad yr UE) ac nid ydym yn glir pam na allai'r Rheoliadau hyn fod wedi dod i rym cyn 31 Ionawr 2020.

10. Roedd gan Weinidogion Cymru ddewis pa weithdrefn i'w chymhwyso i'r Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'n ymddangos bod y dewis o weithdrefn yn briodol.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y llywodraeth i bwyntiau adrodd 1-7 a 9.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
5 Chwefror 2020